Ysgol y Wern

Anelwn am y Brig Uchaf

16/12/21

Annwyl Rieni/Ofalwyr

Fel y gwyddoch mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bore yma y bydd y ddau ddiwrnod cyntaf ar ôl gwyliau'r Nadolig (**4ydd a 5ed o Ionawr**)yn ddiwrnodau cynllunio a pharatoi i Ysgolion.

Rhan o lythyr y Gweinidog Addysg at benaethiaid :

'Ein blaenoriaeth ni oll dal i fod yw lleihau'r tarfu i addysg a sicrhau, lle bo hynny'n bosibl, bod dysgwyr yn parhau i dderbyn dysgu wyneb yn wyneb, yn ogystal â gwarchod staff a dysgwyr ysgolion.

Rydym yn gwybod y bu tarfu yn ystod y tymor ysgol hwn oherwydd absenoldeb staff sydd wedi golygu bod rhai ysgolion wedi gorfod gwneud y penderfyniad anodd i symud rhai dosbarthiadau/grwpiau blwyddyn i ddysgu o bell am gyfnodau byr. Fel cydnabyddiaeth o hyn, yn ogystal â'r lefelau cyfredol o ansicrwydd ynghylch effaith Omicron, rwyf am roi cymaint o eglurder ag y gallaf i ysgolion yn awr i'ch galluogi i gynllunio a pharatoi ar gyfer dychwelyd i'r ysgol ym mis Ionawr.

Rwy'n darparu dau ddiwrnod cynllunio i bob ysgol ar ddechrau tymor newydd y gwanwyn - bydd hyn yn caniatáu amser i chi asesu capasiti staffio a rhoi'r mesurau angenrheidiol ar waith i gefnogi dychweliad dysgwyr.

Rwy'n ymwybodol hefyd y gall yr hyn rydyn ni'n ei ddysgu dros yr wythnosau nesaf am Omicron alw am ymyriadau ar gyfer y lefelau risg uwch fel y nodir yn ein Fframwaith Penderfyniadau Lleol. Felly fel dull rhagofalus, byddai'n ddoeth i chi gynllunio eich camau lliniaru ar gyfer y dychweliad ar sail y lefel risg 'uchel iawn'. Fel rhan o'r paratoad hwn, rwy'n cyflwyno Hysbysiad Deddf y Coronafeirws 2020 i ganiatáu i ysgolion amrywio amseroedd cychwyn a gorffen o ddechrau'r tymor newydd fel cam ychwanegol pe bai ysgolion yn penderfynu bod hyn yn briodol fel rhan o'u proses asesu risg.'

Yn sgîl y llythyr yma

- bydd ein Diwrnod HMS ar Ionawr 4ydd yn cael ei ail-drefnu.
- bydd y teuluoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn derbyn talebau
- yn dilyn ein cyfarfodydd cynllunio cewch wybod yn syth pa newidiadau fydd i'r drefn bresennol

Danfonaf y cylchlythyr wythnosol atoch yfory i ddiolch i chi gyd eto am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad I'r Ysgol. Gwnawn ein gorau i gynnig yr addysg a'r gefnogaeth orau i'n plant ac edrychwn ymlaen i'w croesawu nôl ym mis Ionawr.

Ysgol y Wern

Anelwn am y Brig Uchaf

Dear Parents/Carers ,

As you're aware by now Welsh Government announced this morning that the first two days after the Christmas holidays (**4th &5th January**) will be planning and preparation days for all schools

Please see below part of the letter from the Minister for Education to headteachers :

'Our collective priority continues to be to minimise the disruption to education, and ensure where possible learners continue to receive in person learning, as well as protecting school staff and learners.

We know that during this school term, there has been disruption due to staff absence which has resulted in some schools having to make the difficult decision to move certain classes/year groups to remote learning for short periods. In recognition of this, and the current levels of uncertainty regarding the impact of Omicron, I want to provide schools with as much clarity now as I can to enable you to plan and prepare for the return in January.

Therefore, I am providing all schools with two planning days at the start of the new spring term, this will allow you time to assess staffing capacity and put the necessary measures in place to support the return of learners.

I am also conscious that what we learn over the coming weeks about Omicron may require interventions for the higher risk levels as set out in our Local Decision Framework. Therefore as a precautionary approach, it would be prudent for you to plan your mitigations for the return based on the 'very high' risk level. As part of this preparation, I am issuing a Coronavirus Act 2020 Notice to allow schools to operate staggered start and finish times from the start of the new term as an additional mitigation should schools determine this is appropriate as part of their risk assessment process.'

As a result of this letter

- the INSET Day scheduled for January 4th will be rescheduled
- families eligible for free school meals will receive vouchers for both planning days
- following the planning meetings we shall inform you immediately of any adjustments necessary to our present procedures.

I shall once again thank you all for your unfailing support and co-operation in my weekly newsletter tomorrow. We shall continue to do our utmost to ensure we provide the highest quality education and support and that the return to school will be a smooth one for all our pupils.

We look forward to seeing them in January!

Cadwch yn ddiogel.

Keep safe !

M.Kellaway

Pennaeth/Headteacher